

ATODIAD A: ARGYMHELLIAD 5

1. Ymateb i argymhelliad 5 y Pwyllgor yw'r nodyn hwn, sef bod y Llywodraeth yn ystyried y diffiniad o waredu deunydd fel gwastraff sydd yn adran 6 er mwyn sicrhau ei fod yn eglur ac yn syml.

Rhagarweiniad

2. Gall y Llywodraeth sicrhau'r Pwyllgor ei bod, wrth baratoi'r Bil, wedi ystyried y materion y cyfeiriwyd atynt yn ei adroddiad yn ofalus iawn, gan lwyr ystyried y ddeddfwriaeth bresennol, y gyfraith achos berthnasol (gweler atodiad A1) a'r ffyrdd eraill posibl o fynd o'i chwmpas hi.
3. Er ein bod yn deall yr awydd am sicrwydd a symlrwydd wrth ddiffinio gwarediad trethadwy, mae hwn yn faes cymhleth sydd wedi bod yn destun cyfreitha sylweddol yn y Deyrnas Unedig a lle bydd angen ystyried a phwyso a mesur canlyniadau posibl unrhyw newidiadau'n ofalus. Ar ôl cwblhau'r ymarfer hwn, mae'r Bil hwn yn cynnig model sy'n adeiladu ar y ffordd yr aeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ati gan ddatblygu hyn ymhellach drwy egluro'r cysyniadau sylfaenol a ddefnyddiwyd i bennu'r hyn sy'n cael ei ystyried yn warediadau trethadwy ac i gau unrhyw fylchau posibl. Yn benodol, mae adran 6 yn ceisio egluro nifer o faterion gyda'r nod yn y pen draw o warchod y refeniw drwy osgoi cyn belled ag sy'n bosibl heriau drud sy'n draul ar amser ynghylch y diffiniad o warediad trethadwy, gan sicrhau ar yr un pryd bod trethdalwyr yn cael eu trin yn deg.

Golwg gyffredinol ar Ran 2, Penodau 1 a 2 o Fil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) ('y Bil LDT')

4. Sefydli'r atebolrwydd i dalu'r dreth drwy gyfeirio at adran 3, sy'n rhestru'r pedwar amod y mae angen eu bodloni er mwyn i warediad fod yn drethadwy, sef:

- a. bod deunydd yn cael ei waredu drwy dirlenwi. Diffinnir y cysyniad hwn eto yn adran 4;
 - b. bod y gwarediad yn cael ei wneud mewn safle tirlenwi awdurdodedig (a ddiffinnir yn adran 5) neu mewn man heblaw safle tirlenwi awdurdodedig ond ei fod yn warediad y mae gofyn cael trwydded amgylcheddol ar ei gyfer;
 - c. bod y gwarediad yn warediad o'r deunydd fel gwastraff. Diffinnir y cysyniad hwn eto yn adran 6(1) ac mae darpariaethau cysylltiedig i'w gweld yn adrannau 6 a 7;
 - d. bod y gwarediad yn cael ei wneud yng Nghymru.
5. Datblygir amod 3 yn adran 6(1), sy'n dweud y bydd deunydd yn cael ei waredu fel gwastraff os *"yw'r person sy'n gyfrifol am y gwarediad yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu"*. Dyma'r prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw deunydd yn cael ei waredu neu beidio, a bydd angen bodloni'r prawf hwn (ochr yn ochr â'r 3 amod arall yn adran 3) er mwyn i warediad fod yn drethadwy. Mae hyn yn gyson â'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r dreth dirlenwi yn y Deyrnas Unedig, lle mae'r amod hwn wedi bod yn destun cyfreitha, yn enwedig ynghylch a oes modd dweud na fwriedir bwrw deunydd o'r neilltu os bydd y deunydd yn cael ei 'ddefnyddio' mewn rhyw fodd.
6. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi newid nifer o bethau er mwyn ceisio helpu gweithredwyr safleoedd tirlenwi a'r tribiwnlysoedd ddeall yn well y materion y gellid eu hystyried wrth benderfynu a yw rhywun yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu. Yn gyntaf, rydym wedi bod yn glir ynghylch bwriad pwy sy'n berthnasol ac ymdrinnir â hyn yn adran 7. Ystyriwyd y mater hwn yng nghyfraith achos gynharach y Deyrnas Unedig ac nid yw'n gwbl glir ar wyneb y ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'n dweud, yng nghyd-destun gwarediadau awdurdodedig, mai'r sawl a fydd yn gyfrifol am y gwaredu fydd gweithredwr y safle tirlenwi; neu os bydd gwarediad yn cael ei wneud gan rywun arall, a hynny heb ganiatâd y gweithredwr, y person arall hwnnw. Felly, ni fydd bwriad y sawl sy'n cludo'r gwastraff yn berthnasol. Mae diffyg eglurdeb yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig wedi

arwain at gyfreitha ynghylch y pwynt hwn ac rydym yn ceisio osgoi'r risg o ddrwschwch tebyg drwy ymdrin yn benodol â'r pwynt hwn mewn ffordd sy'n cydweddu â'r gyfraith achos.

7. Yn ail, rydym wedi ychwanegu at y prawf ar gyfer bwriadu bwrw o'r neilltu sydd yn adran 6(1) y darpariaethau sydd yn isadrannau (2) a (3) er mwyn mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion sydd wedi'u hystyried yn ystod cyfreitha ynghylch y dreth tirlenwi a'i gwneud yn llai tebygol y daw'r materion hyn yn destun cyfreitha eto yng nghyd-destun Cymru. Nid yw'r darpariaethau hyn yn disodli'r prawf sylwedd ynghylch a fwriedir bwrw o'r neilltu neu beidio (yn isadran (1)) ond fe'u cynhwysir er mwyn ategu'r ddarpariaeth honno a cheisio osgoi problemau posibl.

8. Mae'r gyntaf o'r darpariaethau hyn, adran 6(2), yn dweud y gellir casglu y bwriedir bwrw o'r neilltu drwy ystyried amgylchiadau'r gwarediad ac yn benodol y ffaith bod deunydd yn cael ei ddyddodi mewn ardal gwarediadau tirlenwi; sef, yn nhermau'r lleygwr, yn y gwacter tirlenwi lle bydd gwastraff fel rheol yn cael ei ddyddodi. Bwriad hyn yw dangos yn glir y gellir ystyried amgylchiadau gwrthrychol gwarediad wrth benderfynu a oedd rhywun yn bwriadu gwaredu'r deunydd er mwyn ei dangos yn glir bod mwy i'r prawf yn adran 6(1) nag a yw person yn derbyn ynteu'n gwrthod ei fod yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu. Mae Adran 6(2) yn caniatáu i nifer o faterion gael eu hystyried wrth benderfynu'r hyn y gallai rhywun fod yn bwriadu ei wneud. Mae hyn yn gyson â'r gyfraith achos¹ a bwriedir iddo osod safbwynt a dderbynnir y tu hwnt i amheuaeth ar wyneb y Bil.

9. Mae Is-adran (2) wedi'i pharatoi i ystyried y gyfraith achos a'r materion sy'n hysbys ynghylch y prawf ar gyfer bwriadu bwrw o'r neilltu, er mwyn i

¹Gweler er enghraifft, baragraffau 41-66 o ddyfarniad Tribiwnlys yr Uwch-haen yn *Patersons of Greenoakhill Ltd v. HMRC (2014) UKUT 0225*, lle yr ystyriodd y barnwr nifer o amgylchiadau perthynasol. Er enghraifft, ym mharagraff 43, canfuwyd bod y ffaith nad oedd y deunydd dan sylw wedi'i wahanu na'i gadw cyn iddo gael ei "ddympio" yn y gwacter yn prawf nad oedd yn fwriad gan Patersons (gweithredwr y safle tirlenwi) ddefnyddio'r deunydd. Gweler hefyd sylwadau'r Canghellor ym mharagraffau 34 a 35 o ddyfarniad y Llys Apêl yn *HMRC v. Waste Recycling Group [2008] EWCA 840* sy'n trafod ffactorau (megis amgylchiadau economaidd caffaeliad, a yw deunydd wedi'i ailgylchu neu wedi'i aildefnyddio) a fydd yn taflu goleuni ar ei fwriad [bwriad y gwaredwr yn y pen draw] ar yr adeg berthnasol.

hynny ddangos y gall y ffordd yr ymdrinnir â deunydd ar safle tirlenwi (ac yn benodol ei osod mewn ardal o'r safle sydd wedi'i ddynodi ar gyfer gwarediadau tirlenwi) fod yn berthnasol i ddyfarniad ynghylch a yw gweithredwr safle tirlenwi yn bwriadu bwrw'r gwastraff o'r neilltu. Bwriedir i hyn fod o gymorth i weithredwyr safleoedd tirlenwi, i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), i'r tribiwnlysoedd ac i'r llysoedd wrth iddynt fynd i'r afael â'r cwestiwn ynghylch a fwriedir bwrw o'r neilltu ac felly waredu deunydd fel gwastraff. Nid pwrpas isadran (2) yw diystyru na newid isadran (1) y prawf, ond yn hytrach bwriedir iddi ddangos yn glir y gall amgylchiadau gwaredu deunydd (mewn cyd-destun awdurdodedig ac anawdurdodedig) fod yn berthnasol wrth benderfynu a fwriedid bwrw gwastraff o'r neilltu, er mwyn sicrhau cyn lleied o droi at gyfreitha ag sy'n bosibl.

10. Nodwn farn y pwyllgor fod y cyfeiriad at 'ardal gwarediadau tirlenwi' yn isadran (2) braidd yn drofaus, a chofio bod yr ardal hon yn cael ei diffinio fel ardal ar safle tirlenwi lle mae gwarediadau'n cael eu gwneud, lle maent wedi'u gwneud, neu lle cânt eu gwneud a bod y term hwn yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun ddarpariaeth y bwriedir iddi benderfynu a oes gwarediad wedi digwydd neu beidio. Serch hynny, rydym yn fodlon bod y ddarpariaeth yn sicrhau'r canlyniad y dymunir iddo'i sicrhau, sef, os caiff deunydd newydd ei waredu mewn rhan o safle tirlenwi lle bydd deunydd fel rheol yn cael ei waredu "fel gwastraff", fod hynny'n dystiolaeth bod y deunydd newydd hefyd yn cael ei waredu "fel gwastraff". Mewn ambell achos, ni fydd isadran (2) yn cael ei rhoi ar waith ond ni honnir mai'r ddarpariaeth hon yw'r unig ffordd o ddangos bod deunydd wedi'i waredu fel gwastraff ac felly nid yw hyn yn broblem.

11. Nodwn farn y Pwyllgor fod adran 6(2) yn ddryslyd ac nad yw'n fuddiol. Nodwn hefyd fod Deloitte yn awgrymu bod sefydlu atebolrwydd i dalu treth ar sail llunio casgliad yn *heriol* ac maent yn amau faint o gymorth ymarferol yw'r ddarpariaeth hon. Serch hynny, nid yw awgrymu bod yr atebolrwydd i dalu treth yn cael ei sefydlu ar sail llunio casgliad yn gwbl gywir: bydd angen ystyried unrhyw gasgliad a lunnir o dan adran 6(2) ochr yn ochr ag unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael wrth benderfynu a oedd y

sawl a oedd yn gyfrifol am y gwarediad yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu. Rhaid cofio hefyd mai dim ond un o'r profion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn sefydlu atebolrwydd i dalu treth yw bwriadu bwrw deunydd o'r neilltu (boed hynny'n digwydd drwy lunio casgliad neu beidio). Ni fydd llunio casgliad ynghylch bwriad ynddo'i hun yn sefydlu atebolrwydd i dalu treth oni fodlonir y profion eraill.

12. Ym marn y Llywodraeth, mae'r cymorth ymarferol a ddarperir drwy lunio casgliad fel hyn yn sylweddol: drwy ei gwneud yn glir i Awdurdod Cyllid Cymru (ac i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd) y cânt ystyried y darlun cyfan, ac nad oes angen iddynt ddibynnu'n unig ar yr hyn y mae gweithredwyr a'r rheini sy'n gwaredu heb awdurdod yn honni iddynt ei fwriadu. Dylai hyn ei gwneud yn anos i weithredwyr a'r rheini sy'n gwaredu heb awdurdod osgoi talu'r LDT. Felly, byddem yn disgwyl i'r ddarpariaeth hon hwyluso casglu'r LDT gan wneud osgoi talu'r dreth a chyfreitha'n llai tebygol. Mae'r egwyddor sy'n sail i'r ddarpariaeth, ym marn y Llywodraeth yn rhesymegol, nid yw'n ddadleuol ac mae'r gyfraith achos cefnogi'r egwyddor hon: sef, wrth benderfynu a oedd rhywun yn bwriadu gwaredu deunydd neu beidio, ei bod yn ddilys ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gwarediad hwnnw, ac nid dim ond yr hyn y mae'r person yn honni iddo'i fwriadu.
13. Cynhaliwyd trafodaethau manwl â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r diffiniad o warediad trethadwy, gan gynnwys adran 6(2) ac mae Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn cydsynio â thystiolaeth yr arbenigwr ar gyfraith amgylcheddol (Dr Patrick Bishop, o UKELA a Phrifysgol Abertawe), sef *bod hyn yn dangos synnwyr cyffredin wrth fynd i'r afael â'r mater hwn a ddylai olygu ei bod yn llai tebygol y gwelir dadleuon cyfreithiol hirfaith yn ei gylch.*
14. Mae Adran 6(3) yn ddarpariaeth newydd hefyd, ac unwaith eto, ei bwriad yw rhoi rhywfaint o arweiniad i Awdurdod Cyllid Cymru, i weithredwyr ac i'r tribiwnlysoedd wrth iddynt benderfynu a fwriedir bwrw deunydd o'r neilltu neu beidio. Mae'n dweud nad yw'r ffaith bod rhywun wedi defnyddio'r

deunydd dros dro neu'n ddamweiniol neu wedi cael budd ohono'n golygu nad oedd yn fwriad ganddo fwrw'r deunydd o'r neilltu. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn rhoi sylw penodol i hanes y cyfreitha rhwng Cyllid a Thollau EM a gweithredwyr safleoedd tirlenwi (yn achos Patersons a drafodir eto isod) ynghylch a ddylid codi treth ar ddeunydd sy'n cynhyrchu nwy methan, drwy roi hyn yn enghraifft o fudd na fyddai ynddo'i hun yn golygu nad oedd yn fwriad bwrw deunydd o'r neilltu.

15. Pwrpas y ddarpariaeth hon yw ei gwneud yn glir bod y ffaith bod rhywun wedi dod o hyd i ryw ffordd dros dro neu ddamweiniol o ddefnyddio deunydd neu wedi cael budd eilaidd ohono'n golygu o anghenraid nad oedd y person hwnnw'n bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu.
16. Mae'r geiriad wedi'i lunio'n fwriadol ac yn ofalus er mwyn mynd i'r afael â mater penodol y gwyddys iddo fod yn ffynhonnell cryn ddadlau a chyfreitha yng nghyd-destun deddfwriaeth y Deyrnas Unedig. Mae'n fwriadol yn osgoi mynd cyn belled â dweud bod presenoldeb yr amgylchiadau hyn yn golygu'n awtomatig bod rhywun wedi bwriadu bwrw deunydd o'r neilltu oherwydd byddai hynny'n amhriodol - ond mae'r ffactorau hyn yn rhai y dylid eu hystyried wrth roi'r prawf o fwriadu bwrw o'r neilltu ar waith yn adran 6(1) sy'n bwydo i'r prawf ynghylch a oes gwarediad trethadwy neu beidio yn adran 3.
17. Yn olaf, o dan rai amgylchiadau, mae'r Bil LDT dweud y caiff gwarediad ei drin yn warediad trethadwy, ni waeth a fydd pedwar amod adran 3 yn cael eu bodloni ai peidio. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bod adran 8 yn rhestru gweithgareddau penodedig ar safleoedd tirlenwi, a fydd, pan fyddant yn digwydd ar safle tirlenwi awdurdodedig, yn cael eu trin yn awtomatig yn warediadau trethadwy. Seilir y ddarpariaeth ar is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig ar ôl ei mireinio rywfaint, ac mae rhai o'r rhain yn berthnasol i faterion y gwyddys eu bod yn arwain at gyfreitha (gweler atodiad A1)

Y Dull a Ffefrir

18. Prif amcanion y Llywodraeth (fel y'u hadlewyrchir yn y darpariaethau sydd wedi'u drafftio'n ofalus yn y Bil), yw adeiladu ar y cysyniadau sy'n sail i'r dreth dirlenwi ac i dreth dirlenwi'r Alban², ond gwneud hynny mewn ffordd sy'n lleihau'r amwysedd ynghylch dynodi gwarediadau trethadwy. Wrth wneud hynny, y bwriad yw sicrhau cyn lleied o bosibilrwydd â phosibl o osgoi'r dreth a chyn lleied o gyfreitha ynghylch ystyr y ddeddfwriaeth. Bydd mynd ati fel hyn o fudd mewn dwy ffordd bwysig:³
- Mae'n sicrhau bod cryn dipyn o gysondeb rhwng hyn a'r system y mae'r sector yn ei deall ac yn gyfarwydd â hi; ac
 - Mae'n gyson hefyd â'r gyfraith achos bresennol sydd wedi datblygu o amgylch prif gysyniadau *gwaredu deunydd fel gwastraff a bwriadu bwrw o'r neilltu*.
19. Mae'r darpariaethau sy'n diffinio gwarediad trethadwy yn y Bil LDT hefyd yn golygu bod modd addasu pethau os bydd arferion gweithredu neu ddatblygiadau yn y dyfodol yn golygu bod angen gwneud hynny, er nad dynt yn caniatáu ar gyfer newid y dull yn llwyr. Nid yw'r Bil LDT yn caniatáu newid y pedwar amod y mae angen eu bodloni er mwyn i warediad fod yn drethadwy (adran 3) ond mae'n caniatáu i ystyr gwaredu deunydd drwy dirlenwi (adran 4) neu ystyr gwaredu deunydd fel gwastraff

² Mae darpariaethau treth dirlenwi presennol y Deyrnas Unedig i'w gweld yn Neddf Cyllid 1996 (DC 1996) ac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd oddi tani. Bydd atebolrwydd am dalu'r dreth dirlenwi'n codi pan wneir gwarediad trethadwy sef, yn ôl y diffiniad, gwaredu deunydd fel gwastraff, drwy dirlenwi mewn safle tirlenwi a hynny ar neu ar ôl 1 Hydref 1996. Ymhelaethir eto ar gysyniadau'r diffiniad hwn yn narpariaethau dehongli Rhan III DC 1996. Mewn ymateb i gyfreitha ynghylch y dreth dirlenwi (gweler Atodiad A1), cyflwynwyd newidiadau i DC 1996 yn 2009. Drwy Ddeddf Cyllid 2009 ychwanegwyd adran 65A at DC 1996, sy'n rhoi'r pŵer i'r Trysorlys wneud Gorchymyn sy'n rhagnodi gweithgareddau y dylid eu trin yn warediadau trethadwy. Mae'r pŵer hwn wedi'i roi ar waith drwy Orchymyn Treth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig Safleoedd Tirlenwi) 2009 sy'n rhestru wyth categori o weithgareddau y dylid eu trin yn warediadau trethadwy, gan gynnwys, er enghraifft, defnyddio deunydd i greu neu gynnal ffordd gludo dros dro.

³ Mae Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 yn cydweddu'n agos iawn â deddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn y ffordd y mae'n diffinio gwarediad trethadwy at ddibenion Treth Dirlenwi'r Alban, ac eithrio bod y diffiniad o safle tirlenwi yn adran 12 o'r Ddeddf honno'n golygu y gall y dreth fod yn berthnasol i warediadau a wneir y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig. Gweler aa.3, 4, 5, 6, 12, 30 a 31 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban); Gorchymyn Treth Dirlenwi yr Alban (Gweithgareddau Rhagnodedig ar Safleoedd Tirlenwi) 2014; Rheoliad 12 o Reoliadau Treth Dirlenwi'r Alban (Gweinyddu) 2015/3

(adran 6) gael ei addasu ac i weithgareddau y tybir eu bod yn warediadau trethadwy (adran 8) gael eu hychwanegu, eu haddasu neu eu dileu.

20. Ystyriodd Llywodraeth Cymru ddewisiadau eraill, gan gynnwys y dull y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd ar ei drywydd yn ôl yr hyn a ddeallwn, fel sydd yng Nghymal 47 o Fil Cyllid 2017 (fel y'i cyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2016).⁴ Yn ôl yr hyn a ddeallwn ar hyn o bryd am y polisi sy'n gefn i'r cynigion newydd hyn, byddai pob deunydd a waredid ar safle tirlenwi (gan gynnwys yn y gwacter) yn drethadwy oni fyddai wedi'i esemptio'n benodol. Byddai hyn yn wir ni waeth beth oedd bwriadau gweithredwr safle tirlenwi, ac ni waeth a fyddai'r deunydd yn cael ei ddefnyddio ai peidio. Wrth ystyried gwahanol ffyrdd o fynd ati, roeddem yn poeni am nifer o bethau ynghylch y model hwn, a hynny'n bennaf:

- a. ei bod yn anodd llunio rhestr effeithiol o esemptiadau;
- b. y tebygolrwydd y bydd cyfreitha'n digwydd mewn maes newydd a maes sydd heb ei brofi, sef y rhestr o esemptiadau;
- c. pa mor ymarferol fyddai gweithredu'r model hwn yng nghyd-destun gwarediadau heb awdurdod;
- d. byddai unrhyw egwyddor hawdd ei hadnabod yn diflannu ynghylch pa bryd y dylai rhywbeth fod o fewn cwmpas y dreth neu beidio petai popeth yn cael ei gynnwys 'o'i mewn' ond eto i gyd bod nifer fawr o bethau wedyn yn cael eu hesemptio.

Casgliad

21. Er ein bod yn cydnabod bod rhai o'r materion cysyniadol sy'n berthnasol i'r dreth yn heriol, mae'r Llywodraeth yn credu bod y Bil yn egluro'r gyfraith yn well mewn ffordd sy'n gyson â'r fframwaith presennol (sy'n gyfarwydd i weithredwyr), yn hwyluso casglu'r dreth ac yn lleihau'r tebygolrwydd o anghydfodau a chyfreitha.

⁴Disgwylir cyhoeddi drafft arall o'r Bil hwn a'r is-ddeddfwriaeth a fydd yn cyd-fynd ag ef cyn bo hir.

ATODIAD A1: ARGYMHELLIAD 5 - CYFREITHA YNGHYLCH Y DRETH DIRLENWI

Mae'r diffiniad o warediad trethadwy, ac yn benodol y cwestiwn ynghylch a gafwyd gwarediad o ddeunydd fel gwastraff, fel y'i nodir yn adrannau 40(2)(a) a 64 ac yn Neddf Cyllid 1996 wedi bod yn ffynhonnell cyfreitha i Gyllid a Thollau EM Crynhoir y gyfraith achos allweddol isod.

HMRC v. Darfish Limited [2001] Env. L.R. 3 (Moses J, QBD)

Roedd a wnelo'r achos hwn â safle tirlenwi awdurdodedig a oedd yn cael ei weithredu gan Darfish Limited. Daeth is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr y cwmni hwnnw â deunydd (uwchbridd ac isbridd/clai) yr oedd wedi'i brynu gan gwmnïau trydydd parti a'i ddyddodi ar y safle tirlenwi. Roedd y deunydd hwnnw i'w ddefnyddio at ddibenion gwaith peirianegol ar y safle.

Canfu'r Tribiwnlys nad oedd Darfish wedi bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu ac felly nad oedd yn atebol am dalu treth. Apeliodd Cyllid a Thollau EM yn erbyn y penderfyniad hwn.

Dadleuodd Cyllid a Thollau EM yr apêl ar y sail nad oedd y gwarediad wedi'i wneud (fel y canfu'r tribiwnlys) ar ran Darfish ond ar ran y cwmnïau y prynwyd y deunydd ganddynt.

Nododd y Llys nad oedd 'gwarediad' yn cael ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth, er bod 'gwarediad drwy dirlenwi' yn cael ei ddiffinio (yn a. 65 DC 1996). Mae'r Barnwr yn dweud ei bod yn rhaid i 'warediad' (disposal) olygu rhywbeth ehangach na 'dyddodi'; (deposit) neu fe allai'r ddeddfwriaeth gyfeirio at 'ddyddodiad' yn unig a'i bod yn rhaid iddi fod yn ehangach na'r term 'bwrw o'r neilltu', gan mai goblygiad y ddeddfwriaeth yw y gall rhywun waredu rhywbeth heb fwriadu ei fwrw o'r neilltu.

Casgliad y Llys oedd mai bwriad y cwmnïau a werthodd y deunydd, yn hytrach na bwriad gweithredwr y safle tirlenwi oedd yn berthnasol a dychwelwyd yr achos i'r tribiwnlys benderfynu ar sail y ffeithiau a oedd wedi'u seilio ar y canfyddiad hwnnw.

Parkwood Landfill v. Commissioners of Customs & Excise [2002]
EWCA Civ 1707 (Llys Apêl)

Roedd a wnelo'r achos hwn â defnyddio deunydd wedi'i ailgylchu yr oedd Parkwood (gweithredwr safle tirlenwi) yn ei brynu i wneud ffyrdd ac at ddibenion tirlunio ar y safle tirlenwi. Dadleuodd Parkwood nad oedd hwn yn drethadwy oherwydd nad oedd y deunydd yn cael ei waredu "fel gwastraff" oherwydd nad oedd bwriad bwrw'r deunydd o'r neilltu. Llwyddodd dadl Parkwood gerbron y Tribiwnlys TAW a Thollau.

Serch hynny, barn y Comisiynwyr oedd nad bwriad Parkwood oedd yn berthnasol ond yn hytrach fwriad yr awdurdod lleol a oedd yn gwaredu'r deunyddiau gyda chwmni yr oedd Parkwood wedyn wedi prynu'r deunydd ganddo. Cadarnhawyd apêl y Comisiynydd gan yr Uchel Lys (Syr Andrew Morritt VC) gan lunio'r farn bod y ffaith nad oedd amodau eraill gwarediad trethadwy (h.y. 'drwy dirlenwi' ac 'ar safle tirlenwi') wedi'u bodloni ar yr adeg y ffurfiodd yr awdurdod lleol ei fwriad o fwrw'r deunydd o'r neilltu yn golygu nad oedd y gwarediad hwn yn un trethadwy, ar yr amod bod yr amodau eraill hynny wedi'u bodloni yn ystod rhyw gam arall.

Apeliodd Parkwood yn erbyn y penderfyniad hwn a chadarnhawyd yr apêl hon gan y Llys Apêl, gan benderfynu mai'r gwarediad ar safle tirlenwi Parkwood oedd yn berthnasol ac nad gwarediad fel gwastraff oedd hwn. Y casgliad oedd, er mwyn cael gwarediad trethadwy, ei bod yn rhaid bodloni'r holl amodau (yn a. 40(2)(a)-(d) DC 1996) ar yr un pryd gan wrthod dadl Cyllid a Thollau EM bod pob amod yn hunangynhwysol.

***Commissioners for HMRC v. Waste Recycling Group Limited
[2008] EWCA Civ 849 (Llys Apêl)***

Roedd WRG (gan weithredu fel yr aelod a oedd yn cynrychioli grŵp o gwmnïau) yn ceisio ad-daliad o dros £2m ar dreth dirlenwi ar gyfer deunydd anadweithiol yr oedd wedi'i ddefnyddio ar ei safleoedd tirlenwi i (i) adeiladu ffyrdd a (ii) gorchuddio'i wastraff adweithiol yn ddyddiol. Gwrthodwyd hawliad WRG am ad-daliad gan Gyllid a Thollau EM (ar y dechrau ac ar ôl ei adolygu) a chan y Tribiwnlys TAW a Thollau ond caniatodd yr Uchel Lys ei apêl. Apeliodd Cyllid a Thollau EM yn erbyn y penderfyniad hwnnw gerbron y Llys Apêl a gwrthodwyd yr apêl honno.

Roedd y Llys yn rhwym o ddilyn penderfyniad y Llys Apêl yn Parkwood, sef bod angen bodloni'r pedwar amod gwaredu yn a. 40(2) ar yr un pryd, gan nodi ei bod yn debygol mai'r adeg hynny fyddai'r foment pan gai'r deunydd ei waredu drwy dirlenwi'n unol â darpariaethau a. 65. Derbyniodd WRG fod y deunydd wedi'i waredu drwy dirlenwi'n unol ag a. 65 (ac felly, nad oedd gofyn i'r Llys benderfynu ynghylch hyn er nad oedd wedi'i argyhoeddi o bell ffordd yn ei gylch) ac nad oedd amheuaeth nad safle tirlenwi'n unol â diffiniad a. 66 oedd hwn. Y cwestiwn felly oedd a oedd WRG wedi gwaredu deunydd gan fwriadu ei fwrw o'r neilltu.

Wrth ystyried y diffiniad hwn, mynegodd y Canghellor y farn a ganlyn am ystyr 'bwrw o'r neilltu' (discard):

“The word discard appears to me to be used in its ordinary meaning of ‘cast aside’, ‘reject’ or ‘abandon’ and does not comprehend the retention and use of the material for the purposes of the owner of it.”

Ar sail ffeithiau'r achos, canfu'r Llys nad oedd gwarediad wedi bod nac ychwaith warediad gan fwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu. Roedd hyn

yn golygu nad oedd y deunydd a ddefnyddid yn orchudd dyddiol ac i adeiladu ffyrdd yn warediad trethadwy.

Patersons of Greenoakhill Ltd v. The Commissioners for HMRC [2014] UKUT 0225 (TCC) (Upper Tribunal- Rose J) ac [2016] EWCA Civ 1250 (Llys Apêl)

Gweithredwr safle tirlenwi yn Glasgow yw Patersons. Mae rhywfaint o'r deunydd bioddiraddadwy y mae'n ei dderbyn yn cynhyrchu nwy tirlenwi (methan) wrth iddo ddadelfennu ac mae Patersons yn gallu casglu'r methan hwnnw a'i ddefnyddio i gynhyrchu trydan (drwy ei losgi mewn generaduron nwy), ac yna'i werthu i'w ddefnyddio yn y grid cenedlaethol.

Yng nghyd-destun y deunydd bioddiraddadwy hwnnw, nid oedd anghydfod rhwng y partïon ynghylch y ffaith bod yr amodau gwaredu trethadwy yn aa. 40(2)(b), (c) a (d) DC 1996 (drwy dirlenwi, mewn safle tirlenwi, ar ôl Hydref 1996) wedi'u bodloni ac mai'r mater a oedd gerbron y tribiwnlys felly oedd a oedd Patersons wedi gwaredu'r deunydd fel gwastraff (a. 40(2)(a) DC 1996) a chofio bod y deunydd yn cynhyrchu methan, a oedd yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan, a hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n ffynhonnell bŵer.

Canfu Tribiwnlys yr Haen Gyntaf y dylid ystyried y deunydd a ddyddodwyd ar y safle yn ddeunydd a waredwyd fel gwastraff ac felly bod Cyllid a Thollau EM wedi gweithredu'n briodol wrth godi treth. Serch hynny, rhoddodd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf ganiatâd i Patersons apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

Gwrthododd yr Uwch Dribiwnlys (Rose J) ddadl Patersons y dylai Tribiwnlys yr Haen Gyntaf fod wedi dilyn y gyfraith achos gynharach, sef Patersons ac WRG. Nododd, wrth ystyried Parkwood *nad oedd trafodaeth wedi bod cyn y tribiwnlys nac yn y Llys Apêl am fwriad*

*Parkwood. Yn hytrach, mae'n ymddangos bod tybiaeth ynghylch bwriad Parkwood wrth gaffael ac yna wrth ddefnyddio'r deunydd a oedd wedi'i ailgylchu... i wneud ffyrdd a thirlunio, sef nad oedd wedi bwriadu bwrw o'r neilltu.*⁵ Casglodd Rose J serch hynny fod Tribiwnlys yr Haen Gyntaf wedi mynd yn rhy bell yn gwrthod yn llwyr yr awdurdod cynharach ac yn benodol achos WRG⁶ gan gyflwyno'r gosodiadau a ganlyn yn sgil yr achos hwnnw a oedd yn berthnasol i Patersons:

- Nid yw'r ffaith bod deunydd yn mynd i'r gwacter drwy dirlenwi, yn golygu o reidrwydd ei fod wedi'i fwrw o'r neilltu at ddibenion prawf gwaredu trethadwy a. 40.
- Nid oedd y ffaith bod gofyn cael gweithgarwch neu beidio (e.e. taenu gorchudd dyddiol fel rhan o ofynion y drwydded) yn penderfynu a oedd bwriad o fwrw o'r neilltu neu beidio.
- Nid yw'r ffaith y caiff deunydd ei adael yn y gwacter ac na chaiff ei ddefnyddio eto ar ôl iddo gyflawni ei swyddogaeth o reidrwydd yn golygu y bwriedir ei fwrw o'r neilltu wrth ei roi yn y gwacter.

Teimlai Rose J *mai hanfod yr achos oedd hyn: a oedd yr hyn a oedd yn digwydd ar safle Patersons yn golygu bod biomas yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan* a'i chasgliad yn y pen draw oedd nad oedd y deunydd a waredid gan Patersons yn cael ei ddefnyddio ganddo i gynhyrchu trydan a'i fod yn cael ei waredu gan y cwmni gan fwriadu ei fwrw o'r neilltu at ddibenion adrannau 64 a 40(2).

Wrth gasglu hyn, cyfeiriodd yr Uwch Dribiwnlys at nifer o ffactorau perthnasol, gan gynnwys: (i) y ffaith y gall gwahanu deunydd fod yn arwydd o fwriadu cadw neu ddefnyddio deunydd, ac y gall rhoi popeth yn y gwacter heb ei wahanu fod yn arwydd o fwriadu bwrw o'r neilltu (er nad yw hynny'n gasgliad diymwad) a (ii) bod y ffaith y byddai nwy methan yn cael ei gynhyrchu o'r deunydd yn ganlyniad anochel am fod

⁵ Mae'n ymddangos bod y ffocws yn yr achos hwn ac i raddau yn achos WRG, ar sefydlu bwriad pwy oedd yn berthnasol at ddiben diffinio'r gwarediad trethadwy.

⁶ Casgliad Tribiwnlys yr Haen Gyntaf oedd bod y farn a luniwyd ynghylch hynny'n ymwneud â'r ffaith bod gan y deunydd fâs a'i fod yn llenwi gofod a bod hynny'n golygu ei fod yn wahanol i'r achos yr oedd wrthi'n ei ystyried.

y deunydd yn y ddaear heb fod angen gwneud dim arall i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Canfu'r Uwch Dribiwnlys y dylid ystyried y deunydd a ddyddodir ar y safle yn ddeunydd a waredwyd fel gwastraff a chanfu fod Cyllid a Thollau EM wedi gweithredu'n briodol wrth godi treth.

Apeliodd Patersons wedyn i'r Llys Apêl, a gyflwynodd ei dyfarniad ar ôl cyflwyno 'r Bil LDT, ar 17 Rhagfyr 2016, gan wrthod yr apêl yn unfrydol. Mae hanfod rhesymu'r Llys wedi'i grisialu ym mharagraff 4 y dyfarniad hwnnw:

“The question whether Patersons disposed of the material as waste for the purposes of section 40(2)(a) must be decided at the date of the deposit by reference to the material in the form it then was. At that time, there was no methane. That came later. Therefore, I would dismiss this appeal.”

Fel y cydnabu'r Fonesig Ustus Arden (ac fe gytunodd y Fonesig Ustus King â hi) yn benodol (ym mharagraff 51), y prif fater ystyriaeth yn nyfarniad y Llys Apêl oedd honno ynghylch ystyr deunydd yn hytrach na dadleuon ynghylch "defnydd". Gwelodd y Fonesig Ustus Black hi'n dda, serch hynny, i fynd i'r afael hefyd â dadleuon ynghylch "defnydd" yn ei dyfarniad hithau, gan gasglu (ym mharagraff 72) fel hyn: “Patersons was intending to get rid of the material by way of landfill and the methane came naturally, and inevitably, as a later by-product of that activity....and thus it was a “disposal of material as waste” within section 40(2)(a).”

Ni roddodd y Llys Apêl ganiatâd i apelio i'r Goruchaf Lys. Serch hynny, mae Patersons wedi gwneud cais i'r Goruchaf Lys am ganiatâd i apelio ac ni chafwyd penderfyniad am hynny eto.

Materion cyfreitha eraill

Yn sgil penderfyniad y Llys Apêl yn achos WRG, cymerwyd camau i gyflwyno rhestr o weithgareddau rhagnodedig a fyddai'n cael eu trin yn warediadau

trethadwy (gweler y crynodeb o'r ddeddfwriaeth uchod). Yn y cyfamser, ymatebodd Cyllid a Thollau EM i'r dyfarniad yn y lle cyntaf drwy gyhoeddi hysbysiad⁷ yn gwahodd hawliadau am ad-daliadau ac yn egluro'i ddehongliad o'r dyfarniad fel a ganlyn:

“On 22 July 2008 the Court ruled in favour of Waste Recycling Group Limited in their action relating to landfill tax liability. The Court found that where material received on a landfill site is put to a use on the site (for example, for the daily coverage of sites required under environmental regulation, and construction of on-site haul roads), it is not taxable, as there is not, at the relevant time, a disposal with the intention of discarding the material.

We accepted the Court's decision and did not seek leave to appeal to the House of Lords.

Notwithstanding any possible future changes to landfill tax legislation that the Government might decide to introduce, the judgment means that materials put to use on a landfill site are not taxable.”

Roedd yr hysbysiad yn cynnwys rhestr o ffyrdd anhraethadwy o ddefnyddio deunyddiau, a oedd yn cynnwys defnyddio "fflfff", sef gwastraff meddal o fagiâu duon y mae unrhyw ddeunyddiau miniog neu drwm a deunyddiau eraill wedi'u tynnu ohonynt. Dywedir bod gosod y gwastraff hwn yn ofalus mewn cell tirlenwi yn gwarchod leinin y gell rhag difrod. Felly, cyflwynodd llawer o weithredwyr safleoedd tirlenwi'n hawliadau am ad-daliad ac fe dalwyd rhai o'r rhain gan Gyllid a Thollau EM.

Yna, newidiodd Cyllid a Thollau EM ei safbwynt gan wahaniaethu rhwng 'y fflfff o'r top' a'r 'fflfff o'r ochr ac o'r gwaelod'. Ar 18 Mai 2012, cyhoeddwyd Revenue and Customs Brief 15/12 gan fwriadu egluro'i ddehongliad blaenorol a chan ddweud yn y bôn na fyddai hawliadau am ad-daliadau ar gyfer fflfff o'r

⁷ Revenue and Customs Brief 58/08, a gyhoeddwyd ar 22 Rhagfyr 2008
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20081230184923/http://hmrc.gov.uk/briefs/excise-duty/5808.htm>

top yn cael eu talu oherwydd nad oedd Cyllid a Thollau EM yn ystyried bod hyn yn 'ddefnyddio' deunydd ond y byddai hawliadau am fflwff o'r ochr a'r gwaelod a gyflwynwyd cyn dyddiad Gorchymyn Gweithgareddau Rhagnodedig 2009 yn cael eu talu. Ategwyd y Briff hwn yn Revenue and Customs Brief 18/12 ar 1 Mehefin 2012.

Sbardunwyd hawliadau yn erbyn Cyllid a Thollau EM yn sgil y penderfyniad hwn, gan ddadlau bod 'fflwff o'r top' yn ffordd o ddefnyddio deunydd ac na ddylai fod yn drethadwy. Wrth ystyried yr hawliadau hyn, newidiodd Cyllid a Thollau EM ei bolisi. Felly, ar 23 Ionawr 2014 cyhoeddodd Cyllid a Thollau EM na fyddai'n caniatáu rhagor o ad-daliadau ar gyfer hawliadau am fflwff, boed y rheini ar gyfer fflwff o'r top ynteu fflwff o'r gwaelod a'r ochr.

Yn sgil newid safbwynt Cyllid a Thollau EM, cyflwynodd nifer o weithredwyr safleoedd tirlenwi hawliadau am adolygiad barnwrol, gan honni bod briff Cyllid a Thollau EM wedi eu harwain i ddisgwyl yn ddigon dilys y caniateid hawliadau am ad-daliadau, a bod Cyllid a Thollau EM wedi gwrthod y rhain ar ôl newid polisi.

Mae hyn ar ben nifer o hawliadau sydd gerbron y tribiwnlys treth haen gyntaf ynghylch sut mae fflwff yn cael ei drin o ran treth (yn enwedig fflwff o'r top oherwydd nad yw hyn yn cael ei drafod yng Ngorchymyn Gweithgareddau Rhagnodedig 2009), ac mae detholiad o'r prif achosion wedi'u gwrandao ac yn disgwyl am ddyfarniad, a nifer o rai eraill wedi'u gohirio yn y cyfamser.